CYNGOR SIR *POWYS* COUNTY COUNCIL

DISGRIFIAD SWYDD

Yr Isafswm oedran Cyflogi yw 22 mlwydd oed

Teitl y Swydd:	**Gweithiwr Gofal Preswyl**
Rhif y Swydd:	**CHL5164**
Cod Gwerthuso Swyddi:	**CSS119**
Gwasanaeth:	**Gwasanaethau Plant**
Lleoliad/Canolfan Waith:	**Cartref Plant ar hyd a lled Powys**

mae hon yn swydd gweithio o leoliad, ac felly bydd rhaid i'r sawl sydd yn y swydd weithio o leoliad penodol fel y nodir

Graddfa:	**Graddfa 6** **Pwynt 11 i Bwynt 14** **£29,071 i £30,515 y flwyddyn ar gyfartaledd** **£15.06 i £15.81 yr awr**
Oriau'r contract:	**Oriau Llanw**
Atebol i:	**Rheolwr Cofrestredig**
Cyfrifoldeb dros:	Neb

Crynodeb

Am y rôl:

Rydym yn ceisio adeiladu ein tîm o weithwyr llanw i weithio ar benwythnosau, hanner tymor a gwyliau'r haf. Os yw hyn yn rhywbeth y gallech helpu ag ef, yna cysylltwch â ni.

Mae gennym 5 cartref preswyl i blant o amgylch Powys, wedi'u lleoli yn Ystradgynlais, Aberhonddu, y Trallwng a ger Llanbrynmair. Rydym yn ceisio adeiladu tîm o weithwyr llanw, y gallwn ddibynnu ar i gyflenwi yn ystod salwch neu absenoldebau eraill.
Mae'r cartref yn cefnogi plant/pobl ifanc sydd ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol cymhleth oherwydd eu profiad bywyd cynnar (11-18 oed). Byddwch yn creu cartref diogel, iach, addysgiadol, lle bodlon lle mae lleisiau plant yn cael eu clywed a'u gweithredu i gyflawni canlyniadau cadarnhaol yn eu bywydau.

Amdanoch chi:

- Rydym yn chwilio am bobl sy'n gofalu ac yn gallu cysylltu â phobl ifanc.
- Byddwch yn mwynhau cymryd rhan a rhannu gweithgareddau, diddordebau a sgiliau bywyd.
- Gallwch wrando ar blant a phobl ifanc gydag urddas a pharch.
- Byddwch yn mwynhau gweithio mewn tîm bach sy'n fyfyriol, yn ddyfeisgar, gan gyfrannu at ddiwylliant o ymddiriedaeth a chyfrifoldeb agored.
- Byddwch yn deall pwysigrwydd darparu cymorth arbenigol proffesiynol i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol, wedi'i ddarparu mewn ffordd sy'n sensitif i anghenion plant a phobl ifanc.

Eich dyletswyddau:

- Byddwch yn gweithio ochr yn ochr â'r tîm parhaol i ddarparu cymorth i'r plant a'r bobl ifanc.
- Byddwch yn gweithio ar rota sifft dydd i ddarparu gofal parhaus fel rhan o dîm i'r plant a'r bobl ifanc sy'n byw yn y cartref.
- Byddwch yn adeiladu perthnasoedd cadarnhaol drwy feithrin, addysgu cysylltiad cyn cywiro gyda dull amyneddgar a digynnwrf a hyrwyddo arferion iach a diogel trwy greu cartref cynnes a chynhwysol.
- Byddwch yn trefnu ac yn hyrwyddo gweithgareddau i blant a phobl ifanc ddysgu pethau newydd ac archwilio diddordebau, hobïau, a sgiliau bywyd yn y cartref a'r gymuned leol.
- Byddwch yn gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd a gofalwyr pobl ifanc i gyflawni nodau ac amcanion cynlluniau'r bobl ifanc.
- Byddwch yn dilyn polisïau, gweithdrefnau a safonau deddfwriaethol y cytunwyd arnynt yn eich gwaith. Byddwch yn ymdrechu bob amser i gael y wybodaeth ddiweddaraf am arfer gorau.

Am ragor o wybodaeth am y swydd hon, gallwch gysylltu â
recruitment@powys.gov.uk

Bydd eich cyfrifoldebau'n cynnwys:

1. Bydd gofyn i ddeilydd y swydd gynorthwyo'r Rheolwr Cartref Cofrestredig i gyflwyno gwasanaeth o ansawdd sy'n diwallu anghenion unigol y plant a phobl ifanc sy'n byw o fewn y ddarpariaeth breswyl.

2. Bydd deilydd y swydd yn gyfrifol am gefnogi'r holl agweddau ar fywyd dyddiol o fewn y Cartref Gofal – Cartref Preswyl i Blant.

3. Bydd gofyn i ddeilydd y swydd weithio ar sail sifftiau, gan gynnwys dyletswyddau cysgu i mewn yn y cartref.

4. Gweithio rota a fydd yn cynnwys gwaith llanw yn y dydd, nosweithiau ac ar benwythnosau a chysgu i mewn yn y cartref ar sail rota fel sy'n ofynnol. Annog diwylliant o hyblygrwydd a gweithio o fewn tîm ymysg y gweithlu a bod yn barod i weithio mewn Cartrefi Gofal eraill – Cartrefi Preswyl i Blant os yn ofynnol.

5. Cyflawni tasgau a chyfrifoldebau gweithiwr allweddol yn unol â chyfarwyddiadau. Mynd ati'n weithgar i hyrwyddo, cymryd rhan a sicrhau safonau uchel o ofal corfforol, glendid, diogelwch a lles ar gyfer yr holl bobl ifanc. Sicrhau darparu

amgylchedd cynnes a derbyngar o fewn y cartref lle mae anghenion emosiynol, cymdeithasol, addysgol, diwylliannol ac ysbrydol y bobl ifanc unigol yn gallu cael eu diwallu.

6. Sicrhau fod y weithdrefn ar gyfer diogelu, monitro a rheoli meddyginiaeth yn cael ei dilyn ynghyd â gweithredu canllawiau i weinyddu meddyginiaeth fel sy'n briodol, a chefnogi'r Uwch Swyddog Gofal/arweinydd sifft i weinyddu unrhyw feddyginiaeth ar bresgripsiwn neu feddyginiaeth heb fod ar bresgripsiwn. Arsylwi, asesu a monitro iechyd, datblygiad a lles emosiynol pobl ifanc, gan gychwyn camau gweithredu priodol lle bo hynny'n angenrheidiol.

7. Sicrhau cydymffurfiaeth â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2019 a'r holl ofynion rheoleiddio ar gyfer cartrefi gofal preswyl i blant ar bob adeg. Gwybod y diweddaraf am ddatblygiadau, arfer a deddfwriaeth newydd mewn gofal plant. Cymryd rhan yn weithgar mewn trefniadau datblygu a goruchwylio ei hunan.

8. Lle bo hynny'n briodol, cynorthwyo wrth lunio asesiad o anghenion a chynlluniau ar gyfer pobl ifanc, a gweithio mewn partneriaeth gyda theuluoedd a gofalwyr y bobl ifanc wrth gyflawni'r nodau ac amcanion sydd o fewn cynlluniau'r bobl ifanc.

9. Trefnu, annog a rhannu mewn gweithgareddau hamdden sy'n diwallu anghenion a dymuniadau'r plant a phobl ifanc yn y cartref a sicrhau fod y bobl ifanc yn cael eu hannog i ddatblygu sgiliau bywyd, sgiliau cymdeithasol ac annibyniaeth sy'n briodol i oedran.

10. Cynnal cofnodion achos, gan gynnwys llunio adroddiadau ar gyfer cyfarfodydd cynllunio, arolygon a chyfarfodydd eraill fel sy'n briodol. Cyflawni tasgau a chyfrifoldebau "gweithiwr allweddol" yn unol â chyfarwyddiadau.

11. Sicrhau fod yr holl weithgareddau o fewn y cartref yn cael eu cyflawni gan roi ystyriaeth ddyledus i ofynion iechyd a diogelwch, gan gynnal asesiadau risg lle bo hynny'n briodol a bod yn gyfrifol am iechyd, diogelwch a lles yr holl staff, plant a phobl ifanc.

12. Sicrhau diogelwch y cartref, gan gynnwys y cynnwys, cofnodion cyfrinachol, arian parod, allweddi, dodrefn a chyfarpar, dillad ac eiddo'r bobl ifanc. Adrodd am unrhyw ddirywiad yng nghyflwr yr eiddo i'r Tîm Rheoli a threfnu ar gyfer unrhyw waith cynnal a chadw yn unol â chyfarwyddiadau.

13. Dilyn polisïau rheoli ymddygiad y cartref a'r polisi ar gyfer y defnydd priodol o arfer ymatal neu gyfyngu (restraint or restrict) sy'n adlewyrchu cyfarwyddyd cenedlaethol presennol.

Gofynion Gwirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

Oherwydd natur y gwaith dan sylw, mae'r swydd yr ydych yn ymgeisio amdani yn dod o dan Orchymyn (Eithriadau) 1975 (fel y'i diwygiwyd yn 2013) Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Mae gofyniad o fewn y swydd am uwch archwiliad DBS gan fod y swydd yn cael ei dosbarthu fel gweithgaredd a reolir dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012, ac fe fydd yn destun archwiliad o'r rhestr o'r bobl hynny a waherddir rhag gweithio gyda phlant.

Oherwydd natur y gwaith dan sylw, mae'r swydd rydych yn ymgeisio amdani o dan amodau Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 (fel y'i diwygiwyd yn 2013) - Efallai y bydd angen gwiriad Diogelwch Personél Sylfaenol (BPSS) ar gyfer y swydd hon.

Gofynion Iechyd a Diogelwch

Trafod polisïau a threfniadau iechyd a diogelwch mewn dull proactif i sicrhau fod safon uchel o arferion gwaith diogel yn cael eu cynnal.

Datganiad Cydraddoldebau:

Mynd ati'n weithgar i gefnogi a gweithredu egwyddorion ac arfer cyfle cyfartal fel y nodir o fewn Polisi Cydraddoldeb y Cyngor.

Gofynion y Gymraeg

Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

SYLWCH;

Er y manylion sydd yn y swydd ddisgrifiad, bydd gofyn i'r sawl sydd yn y swydd wneud unrhyw waith ar gais y Rheolwr o dro i dro, hyd at neu ar lefel sy'n cyfateb â 'Phrif Gyfrifoldebau'r Swydd.'

Y PERSON

Ydych chi'n meddwl mai chi yw'r person cywir i'r rôl? Os felly, dangoswch eich bod chi'n bodloni'r meini prawf canlyniol yn eich cais.

Profiad

Hanfodol

- Profiad y gellir ei arddangos o weithio gyda phlant neu bobl ifanc o fewn capasiti cyflogedig neu ddi-dâl.
- Y gallu i gymell plant a phobl ifanc
- Y gallu i drefnu a chynllunio gweithgareddau

Gwybodaeth

Hanfodol

- Datblygiad plant
- Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

Dymunol

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)
- Proses cynllunio gofal

Cofrestriadau, Cymwysterau a Hyfforddiant

Hanfodol

- NVQ/QCF Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Blant a Phobl Ifanc Cymru a Gogledd Iwerddon (gan gynnwys cymwysterau blaenorol a bennwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru) neu barodrwydd i wneud hyfforddiant a chyflawni'r cymhwyster o fewn dwy flynedd o ddechrau'r gyflogaeth.
- Ymrwymiad i gyflawni unrhyw gymhwyster sy'n berthnasol i'r swydd hon fel y diffinnir o fewn Fframwaith Cymwysterau Gwasanaethau Cymdeithasol Powys
- Parodrwydd i gyflawni proses gynefino a hyfforddiant trylwyr fel sy'n briodol i'r swydd
- Ymrwymiad i gynnal cofrestriad fel Gweithiwr Gofal Cymdeithasol o fewn cyfnod amser penodedig gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Rhinweddau Personal

Hanfodol

- Y gallu i gefnogi cydweithwyr, a gweithio fel rhan o dîm

- Gweithio gyda chywirdeb mewn dull gonest a chyson
- Gwydn yn emosiynol

Sgiliau

Hanfodol

- Sefydlu perthnasoedd gwaith da gyda phlant a phobl ifanc yn seiliedig ar barch a bod yn agored
- Y gallu i weithio ar liwt eich hunan
- Y gallu a'r hyder i weithredu fel eiriolydd ar gyfer plant a phobl ifanc
- Y gallu i gyfathrebu mewn dull effeithiol sy'n gefnogol i'r bobl ifanc. Fe fydd hyn yn cynnwys y gallu i siarad, gwrando, ysgrifennu a defnyddio TGCh yn effeithiol.
- Gweithio mewn dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn
- Sgiliau rhyngbersonol da a'r gallu i sefydlu perthnasoedd addas gyda ffiniau priodol.

Gofynion Eraill

Hanfodol

- Arsylwi cyfrinachedd ar bob adeg mewn perthynas â'r Cartref a'i bobl ifanc, gan gydnabod bod pobl ifanc yn gallu bod yn agored i niwed.
- Gallu gweithio sifftiau ac oriau hyblyg

Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

Rheolwr recriwtio: Ryan Belcher-Jones
Chwefror 2020

Ein gwerthoedd:

Proffesiynol
Rydym yn ymddwyn gyda phroffesiynoldeb ac integriti ym mha bynnag rôl yr ydym yn ei chwarae yn y cyngor

Cadarnhaol
Mae ein hagwedd yn gadarnhaol ym mhopeth a wnawn

Blaengar
Mae ein hymagwedd yn rhagweithiol a chyfrifol wrth gynllunio am y dyfodol

Agored
Rydym yn hysbysu'n gilydd gan rannu gwybodaeth ac ymddwyn â gonestrwydd ac integriti

Cydweithiol
Rydym ni'n gweithio'n adeiladol ac â pharodrwydd ar fentrau ar y cyd

Sut i ymgeisio

Bydd angen i chi gwblhau'r cais ar-lein, mae'n syml, dilynwch y broses gam wrth gam.

Gair i gall:

- Darllenwch y Swydd Ddisgrifiad a Manyleb y Person yn ofalus a'r dystiolaeth eich bod chi'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol yn eich datganiad cefnogi.
- Gwerthwch eich hun a rhowch enghreifftiau ble y bo'n bosibl
- Rhestrwch y cymwysterau sydd gennych sy'n berthnasol i'r swydd, yn ôl y manylion ym manyleb y person.
- Sicrhewch fod un o'ch canolwyr o'ch cyflogwr mwyaf diweddar neu os mai hon yw eich swydd gyntaf beth am ofyn i athro ysgol neu diwtor, ond sicrhewch eich bod yn adnabod y canolwr ar lefel broffesiynol.
- Byddwch yn onest a dywedwch wrthym am unrhyw fylchau yn hanes eich cyflogaeth
- Cwblhewch y cais yn gyflawn

Camau nesaf

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw 31/12/2026.
Ar ôl cyflwyno byddwn yn anfon e-bost atoch i roi gwybod i chi ein bod ni wedi derbyn eich cais.

Dymunwn bob hwyl i chi gyda'ch cais.